

<b>y Gaer Interpretation Prosiect for Powys CC</b>	
<b>English to Welsh translation request No 13 514 WORDS</b>	
<b>English</b>	<b>Cymraeg</b>
<b>Int 101 DL11</b>	
Autoharp owned by Adelina Patti	Awtodelyn a oedd yn eiddo i Adelina Patti
The autoharp is a kind of chorded zither and was originally designed in Philadelphia in 1882. This one was owned by the opera singer, Madame Patti, and is labeled as coming from a musical emporium in Philadelphia. She probably acquired it in the 1880s on one of her many concert tours across America.	Math o sither â chordiau yw'r awtodelyn ac fe'i dyfeisiwyd yn gyntaf yn Philadelphia ym 1882. Roedd hon yn eiddo i'r gantores opera, Madame Patti, ac mae'r label yn dweud iddi ddod o emporiwm cerddoriaeth yn Philadelphia. Mae'n debyg y daeth i'w meddiant yn y 1880au yn ystod un o'i theithiau cyngerdd niferus ar draws America
<b>Int 111 DL11</b>	
Bodice made for Adelina Patti	Bodis a luniwyd ar gyfer Adelina Patti
This velvet bodice with a heavy cotton lining was made for the opera singer, Madame Patti. It was made in Italy, probably in Milan. Performers were expected to supply their own clothes for the stage so Madame Patti would have kept all her costumes to use many times.	Lluniwyd y bodis melfed hwn sydd â leinin cotwm trwm ar gyfer y gantores opera, Madame Patti. Fe'i gwnaethpwyd yn yr Eidal, ym Milan yn ôl pob tebyg. Roedd disgwyl i berfformwyr ddarparu eu dillad eu hunain ar gyfer y llwyfan felly fe fyddai Madame Patti wedi cadw pob un o'i gwisgoedd i'w defnyddio dro ar ôl tro.
<b>Int 105 DL28</b>	
Courtyard door	Drws y clos
This oak door came from a 17th century house at Tretower, which was later incorporated into an inn. The door accessed a cross-passage, which is exceptionally wide since it matches the width of a barn door opposite. Carts could be driven from the street, along the cross-passage, and straight into the barn.	Daeth y drws hwn o dŷ'n dyddio'n ôl i'r seithfed ganrif ar ddeg yn Nhretŵr, a addaswyd i fod yn dafarn yn ddiweddarach. Roedd y drws yn arwain at dramwyfa groes sy'n eithriadol o lydan gan ei bod yr un lled â drws ysgubor gyferbyn. Gellid gyrru certi o'r stryd, ar hyd y dramwyfa groes, ac yn syth i mewn i'r ysgubor.
<b>Int119 DL11</b>	
Matinee programme for the Adelina Patti theatre	Rhaglen perfformiad prynhawn ar gyfer theatr Adelina Patti
In 1891 the opera singer, Madame Patti, created a theatre at her home at Craig y Nos castle based on the opera house at Bayreuth in Germany. She entertained her friends with professional performances there. This matinee performance from 1894 was called "Love Levels All".	Ym 1891 creodd y gantores opera, Madame Patti, theatr yn ei chartref yng nghastell Craig y Nos wedi ei seilio ar y tŷ opera yn Bayreuth yn yr Almaen. Bu'n diddanu ei ffrindiau gyda pherfformiadau proffesiynol yno. Galwyd y perfformiad prynhawn hwn o 1894 yn "Love Levels All".

Int 157 DL04/05	
<b>Love Spoon IV</b> Iwan Bala, watercolour	<b>Llwy Garu IV</b> Iwan Bala, dyfrlliw
Iwan Bala was one of three artists who were commissioned in 2001 to respond to the museum's collection of Welsh lovespoons in a contemporary way. Bala's image is wittily sexual within the form of a spoon.	Roedd Iwan Bala yn un o dri artist a gomisiynwyd yn 2001 i ymateb mewn dull cyfoes i gasgliad yr amgueddfa o lwyau caru Cymreig. Mae llun Bala yn ddelwedd ffraeth o rywiol o fewn ffurf llwy.
Int 158 DL 04/05	
<b>Love Spoon VI</b> Iwan Bala, watercolour	<b>Llwy Garu VI</b> Iwan Bala, dyfrlliw
Iwan Bala was one of three artists commissioned in 2001 to respond to the museum's collection of Welsh lovespoons in a contemporary way. Here Bala has treated the spoon as an organic plant bearing fruit.	Roedd Iwan Bala yn un o dri artist a gomisiynwyd yn 2001 i ymateb mewn dull cyfoes i gasgliad yr amgueddfa o lwyau caru Cymreig. Yma mae Bala wedi trin y llwy fel planhigyn organig yn dwyn ffrwyth.
Int 159 DL 04/05	
<b>Love Spoon</b> William Brown, screen print	<b>Llwy Garu</b> William Brown, print sgrin
William Brown, originally from Canada, was one of three artists commissioned in 2001 to respond to the Museum's collection of Welsh lovespoons in a contemporary way. Brown, always iconoclastic, suggests in his image a three-way relationship.	Roedd William Brown, yn wreiddiol o Ganada, yn un o dri artist a gomisiynwyd yn 2001 i ymateb mewn dull cyfoes i gasgliad yr amgueddfa o lwyau caru Cymreig. Mae Brown, sydd wastad yn eiconoclastig, yn awgrymu perthynas dairochrog yn ei lun.
Int 160 DL04/05	
<b>Sapphic Love Spoon found in Mynachdy</b> Peter Bailey, mixed media sculpture	<b>Llwy Garu Saffig a ddarganfuwyd ym Mynachdy</b> Peter Bailey, cerflun cyfrwng cymysg
Peter Bailey was commissioned to respond to the museum's collection of Welsh lovespoons in a contemporary way. Bailey uses paper, interlocked found forms within a box frame to suggest lovespoons can be a pledge within a lesbian relationship.	Comisiynwyd Peter Bailey i ymateb mewn dull cyfoes i gasgliad yr amgueddfa o lwyau caru Cymreig. Mae Bailey yn defnyddio ffurfiau haggael papur wedi'u cyd-gloi, mewn ffrâm focs i awgrymu y gall llwyau caru fod yn symbol o addewid o fewn perthynas lesbiaidd.
Int 161 DL04/05	

<p><b>Love spoon with love knot found in Tenby</b> Peter Bailey, mixed media sculpture</p>	<p><b>Llwy garu â chwlmw cariad a ganfuwyd yn Ninbych-y-pysgod</b> Peter Bailey, cerflun cyfrwng cymysg</p>
<p>Peter Bailey responded to the museum's collection of Welsh lovespoons in a contemporary way. Bailey creates an object, once treasured, now half-buried in the sand but still holding riches in its bowl below a lover's knot.</p>	<p>Ymatebodd Peter Bailey i gasgliad yr amgueddfa o lwyau caru Cymreig mewn dull cyfoes. Mae Bailey yn creu gwrthrych, a drysorwyd ar un adeg, sydd nawr wedi ei hanner gladdu yn y tywod ond yn parhau i ddal cyfoeth yn ei ddysgl o dan gwlwm cariad.</p>
<p>Int 162 DL08/09</p>	
<p><b>The Mari Lwyd approaches</b> Clive Hicks-Jenkins, Conte on Arches paper</p>	<p><b>Mae'r Fari Lwyd yn dynesu</b> Clive Hicks-Jenkins, creon Conte ar bapur Arches</p>
<p>In 1998 Hicks-Jenkins began a series of pictures inspired in part by the nightmares of his dying father and the memory of the AIDS epidemic. This picture from 2001 contains images of a horse's skull, part of the Mari Lwyd tradition that had terrified him as a boy. The one symbol of calm is the castle of Tretower where the artist had been custodian.</p>	<p>Ym 1998 dechreuodd Hicks-Jenkins ar gyfres o luniau a ysbrydolwyd yn rhannol gan hunllefau ei dad a oedd ar farw a'r atgof o'r epidemig AIDS. Mae'r llun hwn o 2001 yn cynnwys delweddau o benglog ceffyl, rhan o draddodiad y Fari Lwyd a oedd yn codi arswyd arno pan oedd yn fachgen. Yr unig symbol o lonyddwch yw castell Tretwr lle bu'r artist yn geidwad.</p>
<p><b>Cyflwynwyd gan: Liz Bickerton</b> <span style="float: right;"><b>Dyddiad 29/11/2019</b></span></p>	
<p><b>Cwblhawyd gan:</b></p>	